



Y RHWYDWAITH
YMCHWIL IECHYD
MEWN YSGOLION

THE SCHOOL
HEALTH RESEARCH
NETWORK

Medi 2025

Annwyl Riant/Ofalwr,

Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion

Caiff y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ei arwain gan Brifysgol Caerdydd mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Bob dwy flynedd, mae disgyblion ysgolion uwchradd sy'n rhan o'r Rhwydwaith yn cael gwahoddiad i gymryd rhan yn yr Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr. Mae'r wybodaeth a gesglir yn yr arolwg yn cael ei defnyddio i lunio adroddiad pwrpasol ar gyfer pob ysgol, sy'n cefnogi eu gwaith i wella iechyd a lles eu disgyblion. Yn bwysig, ni ellir adnabod unrhyw ddisgybl unigol yn yr adroddiad hwn gan mai dim ond data cyfanredol sy'n cael ei rannu.

Mae ysgol eich plentyn yn cymryd rhan yn Arolwg Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion y tymor hwn. Mae'r arolwg yn cael ei reoli gan Ipsos ar ran Prifysgol Caerdydd ac mae'n cael ei gwblhau ar-lein o dan oruchwyliaeth aelod o staff yr ysgol. Mae'n cynnwys cwestiynau ar ymddygiad iechyd, gan gynnwys deiet, ymarfer corff, ysmegu, alcohol, cyffuriau, bywyd ysgol a pherthnasoedd. Bydd nifer fach o gwestiynau sy'n ymwneud ag ymddygiad rhywiol i ddisgyblion ym Mlwyddyn 9 ac uwch yn unig. Mae pob disgybl yn dewis a ydyn nhw am gwblhau'r arolwg ai peidio a gallan nhw hepgor unrhyw gwestiwn nad ydyn nhw am ei ateb.

Ar ddiwedd yr arolwg, gwahoddir disgyblion i roi eu henw, dyddiad geni a chod post at ddibenion ymchwil cysylltu data. Mae hyn yn galluogi ymchwilwyr i gysylltu ymatebion i'r arolwg ar draws gwahanol rowndiau o'r arolwg sy'n cael ei gynnal bob dwy flynedd, er mwyn ymchwilio i sut a pham mae iechyd a lles yn newid drwy'r glasoed. Mae hefyd yn caniatáu i atebion gael eu cysylltu'n ddiennw â data arall sy'n cael ei gasglu'n rheolaidd amdany'n nhw gan sefydliadau dibynadwy fel y GIG a Llywodraeth Cymru fel apwyntiadau meddygon teulu a chanlyniadau TGAU. Darllenwch fwy am gysylltu data ar y daflen hon.

Mae'n glir i ddisgyblion bod hyn yn wirfoddol, ac nid oes rhaid iddyn nhw roi'r wybodaeth hon os nad ydyn nhw eisiau. Bydd yr ysgol yn dangos recordiad fideo i'r disgyblion am hyn, y gallwch ei weld yma: www.shrn.org.uk/gdpr ynghyd â rhagor o wybodaeth am gysylltu data. Os na allwch chi gael mynediad at y fideo neu'r wefan, e-bostiwch shrn@cardiff.ac.uk neu cysylltwch â'ch ysgol i ofyn am daflen..

Bydd yr holl ddata yn cael ei drin yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data (2018) a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, a gallwch chi ddarllen ein hysbysiad preifatrwydd data yma: <https://www.shrn.org.uk/cy/gdpr-2/>. Mae'r arolwg yn gwbl gyfrinachol oni bai bod ymateb disgybl yn codi pryderon am eu lles, ac yn yr achos hwnnw byddwn ni'n hysbysu swyddog diogelu'r ysgol os oes gennyn ni enw'r dysgwr. Mae Prifysgol Caerdydd yn defnyddio data'r arolwg i lunio Adroddiadau Iechyd a Lles Myfyrwyr y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion ac ar gyfer ymchwil ar iechyd a lles pobl ifanc. Dim ond data cyfanredol, e.e. canran y bechgyn Blwyddyn 7 sy'n bwyta brechwast bob dydd, y mae'r Adroddiadau Iechyd a Lles Myfyrwyr hyn yn ei gynnwys.

Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)

SBARK, Heol Maendy, Caerdydd CF24 4HQ

The School Health Research Network (SHRN)

SPARK, Maindy Road, Cardiff CF24 4HQ

 shrn.org.uk

Partneriaeth yw Rhwydwaith Ymchwil Ysgolion Iach rhwng DECIPHer, Cancer Research UK, Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd.

The School Health Research Network is a partnership between DECIPHer, Cancer Research UK, Welsh Government, Public Health Wales and Cardiff University.

Gobeithio y byddwch chi'n fodlon i'ch plentyn gymryd rhan. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, rhowch wybod i'ch ysgol cyn gynted â phosibl.

Yn gywir,



Dr. Kelly Morgan

Cyfarwyddwr, y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion



Y RHWYDWAITH
YMCHWIL IECHYD
MEWN YSGOLION

THE SCHOOL
HEALTH RESEARCH
NETWORK

Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion (SHRN)

SBARK, Heol Maendy, Caerdydd CF24 4HQ

The School Health Research Network (SHRN)

SPARK, Maindy Road, Cardiff CF24 4HQ

 shrn.org.uk